



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion

## Gorchymyn Drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

24 Tachwedd 2020

## Cyflwyniad

Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, (a elwir weithiau yn "Orchymyn Ymddygiad" ac y cyfeirir ato yng ngweddill y ddogfen hon fel "Gorchymyn 2007"), yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau i Senedd Cymru. Mae'n nodi'r ffordd y mae'r etholiad ac ymgyrch yr etholiad yn cael eu cynnal, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer her gyfreithiol i etholiad. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ynghylch casglu a chadw dynodwyr personol ar gyfer pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr drwy ddirprwy a gofynion yn ymwneud â delio â phleidleisiau absennol a'r cais ar eu cyfer. Mae Gorchymyn 2007 yn cael ei adolygu ac fel arfer mae wedi'i ddiwygio cyn pob un o etholiadau cyffredinol y Senedd.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad a oedd yn ceisio barn ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2020 (Diwygio), y bwriedir ei ddeddfu cyn etholiadau'r Senedd yn 2021. Mae Gorchymyn drafft 2020 yn amlinellu diwygiadau i Orchymyn 2007 sy'n dechnegol eu natur i raddau helaeth ac sy'n ofynnol er mwyn adlewyrchu penderfyniadau polisi a newidiadau deddfwriaethol sydd eisoes wedi bod yn destun ymgyngori a thrafodaeth sylweddol. Yn benodol, mae'r mwyafrif yn codi o ganlyniad i newidiadau i'r trefniadau etholfraint ac anghymhwysu a wnaed gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ogystal â rhai diwygiadau canlyniadol sy'n deillio o'r darpariaethau enwi.

Daeth y newidiadau deddfwriaethol yn ymwneud â newid enw, etholfraint a threfniadau anghymhwysu'r Senedd i rym yn Neddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Mae Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 yn ymgorffori'r diwygiadau gofynnol hyn o ganlyniad i Ddeddf 2020 yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Roedd yr ymgyngoriad yn ceisio barn ynghylch yr angen i newid y darpariaethau yng Ngorchymyn 2007, yn sgil Deddf 2020. Nid oedd yr ymgyngoriad yn cynnwys ymgyngori ar rinweddau polisiâu a oedd eisoes wedi bod yn destun ymgyngori a thrafod.

Gofynnodd yr ymgyngoriad hefyd am farn ar welliannau mwy sylweddol sy'n adlewyrchu newidiadau a wnaed mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i roi'r dewis i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref mewn etholiad, ynghyd â mater talu ffioedd i swyddogion canlyniadau am wasanaethau a ddarperir, yn ogystal â diweddariadau cyffredinol eraill sy'n adlewyrchu newidiadau ers i'r Gorchymyn gael ei ddiwygio ddiwethaf.

Tynnodd sylw hefyd at ddarpariaethau a oedd yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y Gorchymyn terfynol:

- Darpariaeth i sicrhau bod y rheolau yn y Gorchymyn ar gyfer cofnodion pleidleiswyr absennol a'r rheolau i ddiogelu gwybodaeth ynglŷn â chyrhaeddwy'r 14 a 15 mlwydd oed yn Neddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.
- Darpariaeth i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r term "Cymru" neu "Welsh" ar bapurau enwebu a phleidleisio i sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng canghennau datganoledig pleidiau gwleidyddol ledled y DU ac i osgoi dryswch i bleidleiswyr.

Cyhoeddwyd Gorchymyn drafft 2020 ochr yn ochr â'r ddogfen ymgyngori. Cyhoeddwyd yr ymgyngoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, ac anfonwyd dolen i'r ymgyngoriad at yr holl

randdeiliaid allweddol sydd â diddordeb uniongyrchol yn y cynigion, gan wahodd eu sylwadau.

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ynghylch a oedd unrhyw agweddau ychwanegol ar Orchymyn 2007 y mae angen eu diweddarau neu eu diwygio yn ogystal â gwahodd sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig eu hunain.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 15 Mehefin 2020 a daeth i ben ar 8 Medi 2020.

Gofynnodd yr ymgynghoriad y pum cwestiwn canlynol:

#### Cwestiwn 1

Hoffem wybod eich barn ar y diwygiadau arfaethedig i Orchymyn 2007. A yw'r diwygiadau'n ymarferol? A fyddent yn cael yr effaith a fwriedir gan y newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n eu creu? A ydynt yn glir ac yn ddealladwy?

#### Cwestiwn 2

Hoffem wybod a oes unrhyw agweddau eraill ar y Gorchymyn yr ydych yn credu sydd angen eu diweddarau neu eu diwygio? A oes unrhyw ddatblygiadau wedi bod ers i'r Gorchymyn gael ei ddiwygio ddiwethaf sy'n golygu bod angen newid y Gorchymyn?

#### Cwestiwn 3

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Gorchymyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru'r effeithiau negyddol?

#### Cwestiwn 4

Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai'r Gorchymyn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

#### Cwestiwn 5

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

## **Ymatebion**

Daeth cyfanswm o 14 o ymatebion o sylwedd i law. Er bod rhai ymatebwyr yn sefydliadau, pleidiau gwleidyddol neu unigolion y mae gan eu rolau gysylltiad uniongyrchol ag etholiadau, cafwyd wyth ymateb gan aelodau o'r cyhoedd.

Rhestrir yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Nododd sawl ymatebydd ei fod, yn gyffredinol, yn cefnogi'r diwygiadau i Orchymyn 2007.

Caiff yr ymatebion a ddaeth i law eu crynhoi o dan deitl pob gwelliant arfaethedig:

## **Newid enw'r Senedd (i adlewyrchu Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)**

Nododd dau ymatebydd eu bod yn cefnogi'r newidiadau a wneir i'r Gorchymyn.

## **Estyn etholfraint y Senedd i bobl 16 a 17 mlwydd oed a darpariaethau cysylltiedig (i adlewyrchu Rhan 3 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)**

Nid oedd tri ymatebydd yn gefnogol i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed. Dywedodd un ymatebydd y byddai estyn yr etholfraint i blant o dan 18 oed yn golygu eu bod yn cael eu hystyried yn oedolion. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid cynnal refferendwm i ganfod a yw pobl Cymru yn credu ei bod yn briodol gostwng yr oedran pleidleisio. Cwestiynodd trydydd ymatebydd aeddfedrwydd y grŵp oedran hwn a pha mor agored ydoedd i bwysau gan gyfoedion, neu bwysau gan berthnasau i bleidleisio dros blaid wleidyddol benodol.

Nododd dau ymatebydd yn benodol eu bod yn cefnogi'r gwelliannau i adlewyrchu estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020.

Roedd ymatebydd arall yn croesawu newidiadau yn yr etholfraint bleidleisio ond awgrymodd fod angen eglurhad pellach ynghylch a fydd pleidiau gwleidyddol yn gallu nodi cyrhaeddwy'r ar y gofrestr etholiadol ac a fydd dyddiadau geni ar gael.

## **Estyn etholfraint y Senedd i ddinasyddion tramor cymhwysol (i adlewyrchu Rhan 3 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru)).**

Nododd dau ymateb yn benodol eu bod yn croesawu'r gwelliannau a gynigir i adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 i estyn yr etholfraint i ddinasyddion tramor cymwys.

## **Anghymhwysu (i adlewyrchu Rhan 4 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020)**

Nododd dau ymatebydd eu bod yn cefnogi'r newidiadau a wneir i'r Gorchymyn.

## **Cyhoeddi cyfeiriad ymgeiswyr**

Roedd tri ymatebydd yn croesawu'r gwelliannau i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu atal eu cyfeiriad cartref rhag cael ei gyhoeddi a hefyd i sicrhau, pan fydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun, na chyhoeddir ei gyfeiriad cartref.

Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, "Rydym yn cefnogi'r diwygiadau arfaethedig i sicrhau y gall ymgeiswyr atal eu cyfeiriadau cartref rhag cael eu cyhoeddi. Byddai hyn yn amddiffyn diogelwch ymgeiswyr ac yn darparu cysondeb ar draws etholiadau'r DU. Rydym hefyd yn croesawu ac yn cefnogi'r gwelliannau i sicrhau, os bydd ymgeisydd yn gweithredu fel ei asiant ei hun ac yn atal ei gyfeiriad cartref rhag cael ei ryddhau, na chaiff ei gyhoeddi yn unman arall (cyhoeddi hawliadau, hysbysiadau, a gwasgnodau o ddeunydd ymgyrchu). Nid yw'r mater hwn wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth ar gyfer etholiadau eraill y DU. "

## **Taliadau i Swyddogion Canlyniadau**

Dim ond un ymatebydd a oedd o blaid dileu taliadau i Swyddogion Canlyniadau. Nododd pedwar ymatebydd yn benodol nad oeddent yn cefnogi'r bwriad i ddileu'r ffioedd personol sy'n daladwy i Swyddogion Canlyniadau.

Yn gyffredinol, roedd y dadleuon a gyflwynwyd dros beidio â chefnogi'r bwriad i ddileu ffoedd personol sy'n daladwy i Swyddogion Canlyniadau yn disgyn i dri phrif gategori.

- Annibyniaeth Swyddogion Canlyniadau
- Cyfrifoldeb personol Swyddogion Canlyniadau
- Llwyth gwaith ychwanegol Swyddogion Canlyniadau

### Annibyniaeth y Swyddog Canlyniadau

Amlygwyd bod y Swyddog Canlyniadau yn swydd unigryw a nodir yn Adran 27(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a bod y darpariaethau hyn yn pwysleisio annibyniaeth y Swyddog Canlyniadau. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod yr annibyniaeth yn bwysig gan ei bod yn ennyn ymddiriedaeth y rhai sy'n sefyll etholiad a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn etholiadau. Credwyd y byddai'n codi cwestiwn ynghylch pwy fyddai cyflogwr y staff sy'n ymgymryd â gwaith etholiadol pe bai rôl y Swyddog Canlyniadau yn cael ei chyflawni fel rhan o'i rôl barhaol â thâl o fewn yr Awdurdod Lleol.

Dywedodd y Comisiwn Etholiadol yn ei ymateb "Fel mater o egwyddor, credwn y dylai ROs fod yn annibynnol ar lywodraethau lleol a chenedlaethol wrth gyflawni eu dyletswyddau gweinyddol etholiadol statudol.

Mae annibyniaeth ROs yn angenrheidiol i sicrhau bod etholiadau yn cael eu gweinyddu yn effeithiol, ac y cânt eu cynnal er budd pleidleiswyr. Mae hefyd yn osgoi unrhyw ganfyddiad o ragfarn ac yn helpu i hyrwyddo hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses.

Mae perygl hefyd y gallai hyder yn nidueddrwydd ROs gael ei ddifrodi pe caent eu hunig dâl am ymgymryd â'r gwaith trwy eu contract cyflogaeth gyda'r awdurdod lleol a wnaeth eu penodi i'w rôl barhaol.

Rhaid i unrhyw newidiadau i'r fframwaith rheoli cyfredol ar gyfer cyflawni etholiadau yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny i'r trefniadau cyfredol ar gyfer ariannu etholiadau a thalu ROs am eu gwasanaethau, beidio â gwanhau annibyniaeth ac atebolrwydd y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni etholiadau, neu beri canfyddiad o'r fath ymysg pleidleiswyr ac ymgyrchwyr.

Gallai'r cynnig i gyfnewid ffi ROs am swm sy'n daladwy i bob tîm etholiadol sydd ynghlwm wrth gynnal etholiadau'r Senedd yn 2021 fwrw amheuaeth ar eu hannibyniaeth, pe câi hwn ei dalu gan yr awdurdod lleol, fel y cynigiwyd.

Credwn ei bod yn bwysig egluro nad yw ROs wedi eu cyflogi gan gynghorau pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau etholiadol neu refferenda swyddogol, a'u bod yn swydd-ddeiliaid statudol annibynnol sy'n atebol o'r llysoedd am gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Megis yn ôl y system gyfredol, mae rhyw fath o daliad i ROs yn helpu i ddynodi statws gwahanol ac annibynnol y rôl."

### Cyfrifoldeb personol y Swyddog Canlyniadau

Tynnwyd sylw at y ffaith bod dyletswyddau'r Swyddog Canlyniadau yn gyfrifoldeb personol i'r Swyddog Canlyniadau, sy'n uniongyrchol atebol i'r llysoedd am unrhyw gwestiwn neu fethiant yn y dyletswyddau hyn. Gellir herio'r Swyddog Canlyniadau mewn llys etholiadol pe bai unrhyw elfen o weinyddiaeth yr etholiad yn methu. Pe bai methiant o ran perfformiad, gall y Comisiwn Etholiadol, sydd ei hun yn gorff annibynnol, argymhell y dylid atal unrhyw ffi sy'n daladwy i'r Swyddog Canlyniadau.

Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol "Nid yw'r Swyddog Canlyniadau'n atebol i'r awdurdod lleol, ei aelodau etholedig na'r Senedd. Mae cyfrifoldeb personol yn sicrhau

annibyniaeth, sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol wrth gynnal etholiadau effeithiol y gellir ymddiried ynddynt. Fel rôl annibynnol, mae'r rhwymedigaethau'n rhai i'r unigolyn, nid yr awdurdod lleol. Dangosir hyn gan y ffaith bod y Swyddog Canlyniadau yn destun deisebau etholiadol o fewn Rhan III o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau sicrhau bod ganddo yswiriant personol am yr union reswm hwn. Os cânt eu canfod yn euog o unrhyw weithred neu esgeulustod sy'n torri eu dyletswydd swyddogol, maent yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na £5,000."

### Llwyth gwaith ychwanegol y Swyddog Canlyniadau

Tynnwyd sylw at y ffaith bod rôl y Swyddog Canlyniadau yn un gymhleth ac uchel ei phroffil. Fe'i hystyriwyd yn amhriodol i'r person hwnnw beidio â chael tâl priodol am ymgymryd â'r llwyth gwaith ychwanegol a'r rhwymedigaethau personol cysylltiedig sy'n cyd-fynd â'r rôl. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y dylid adolygu a gwerthuso unrhyw dâl am unrhyw swydd yn rheolaidd, gan gynnwys tâl Swyddogion Canlyniadau, ac y dylai adlewyrchu llwyth gwaith a chyfrifoldebau'r rôl.

Dywedodd un ymatebydd "Os na chaiff Swyddogion Canlyniadau eu talu yn y rôl hon, dylent allu adennill taliad am oriau ychwanegol a weithiwyd fel Swyddogion Canlyniadau am oramser ac oriau anghymdeithasol e.e. cyfrif pleidleisiau dros nos fel y byddai unrhyw aelodau eraill o'r tîm etholiadau. Prin yw'r Swyddogion Canlyniadau sydd â threuliau o bwys ar hyn o bryd, gan eu bod yn cymryd ffi i dalu am bopeth a wnânt. Dylai Swyddogion canlyniadau hefyd allu codi ffi rheoli cyfrif os nad oes ffi gyffredinol."

Tynnodd y Comisiwn Etholiadol sylw hefyd at bryderon y gallai dileu'r taliad atal ymgeiswyr priodol rhag ymgeisio am rôl Swyddog Canlyniadau a Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol "Mae hefyd yn bwysig taw unigolion priodol â'r set sgiliau gywir sydd yn cyflawni rôl Swyddog Canlyniadau a Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, a dylid eu talu yn unol â hynny. Mae'n bosib y byddai cael gwared â'r ffi bersonol yn rhwystro uwch swyddogion profiadol a galluog rhag ymgynnig i ymgymryd â rôl bwysig Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o'u gwirfodd."

### **Taliad Arfaethedig i Dimau Rheoli Etholiadol**

Croesawodd tri ymateb y taliad arfaethedig i'r Tîm Gweinyddiaeth Etholiadol ond gofynnwyd am eglurhad pellach.

Dywedodd un ymatebydd "Mae'r ffaith bod y timau hyn a phwysigrwydd eu gwaith o ran cynnal etholiadau'n llwyddiannus yn cael ei gydnabod i'w groesawu. Croesewir a chefnogir yr egwyddor o ad-daliad priodol am y gwaith a wnânt, a'r cyfrifoldebau cysylltiedig. Rhaid nodi bod gwaith o'r fath fel arfer yn cael ei wneud y tu hwnt i oriau eu contract arferol gydag awdurdod lleol. Mae'n amheus a fydd unrhyw 'gyfandaliad' yn gydnabyddiaeth ddigonol am y gwaith craidd a wneir. Gall taliadau gan awdurdodau lleol amrywio ac, unwaith eto, gan na welwyd manylion y cynllun arfaethedig, mae'n anodd rhoi sylwadau ar hyn. Dylai taliadau a wneir fod yn glir ac yn dryloyw gan adlewyrchu cyfrifoldebau pob unigolyn, a'r gwaith a wneir, wrth weinyddu etholiadau ar lefelau rhanbarthol a lleol."

Yn ei hymateb dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol "Rydym yn croesawu'r ffaith bod timau gweinyddiaeth etholiadol yn cael eu cydnabod ac rydym yn llwyr gefnogi egwyddor o ddarparu ad-daliad priodol am y gwaith y maent yn ei wneud uwchlaw cyfrifoldebau eu contract. Rydym yn pryderu efallai na fydd cyfandaliad o reidrwydd yn eu digolledu'n ddigonol, gan fod amrywiadau o gyngor i gyngor yn aml na ellir eu hadlewyrchu mewn gwaith modelu. Credwn y dylai unrhyw daliadau a wneir fod yn glir ac yn dryloyw ac adlewyrchu cyfrifoldebau'r unigolyn a'r gwaith a wna mewn perttynas â chynnal yr etholiad."

## Codau Ymarfer

Nododd tri ymatebydd eu bod yn cefnogi'r ddarpariaeth i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer, ar gyfer treuliau etholiad ymgeiswyr, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

## Cyflwyno Pleidiau Gwleidyddol ar Bapurau Enwebu a Phleidleisio

Nododd tri ymatebydd eu bod yn cefnogi'r cynnig i ganiatáu i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid Cymreig ar bapurau enwebu a phapurau pleidleisio.

Ychwanegodd un o'r ymatebwyr y "Bydd yn cynorthwyo i wahaniaethu rhwng pleidiau gwleidyddol ledled y DU, a phleidiau sefydliadau datganoledig a bydd yn adlewyrchu newidiadau a wnaed yn yr Alban yn 2015. Mae'n hanfodol bod cynnig o'r fath yn cael ei wneud i'r newidiadau i etholiadau llywodraeth leol er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth."

Dywedodd ymatebydd arall: "Rydym yn gryf o blaid y gwelliant hwn ac yn croesawu cynnig Llywodraeth Cymru. Nid yw'r ddeddfwriaeth gyfredol (Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda) ond yn caniatáu i bleidiau sy'n dymuno sefyll fel ymgeiswyr ar y cyd gofrestru un disgrifiad ar gyfer ymgeiswyr ym mhob etholiad (gan gynnwys etholiadau Senedd y DU, Senedd Cymru a llywodraeth leol). Gan fod yn rhaid defnyddio'r un disgrifiad hwn ledled y DU, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl cynnwys y gair 'Cymru' neu 'Welsh', yn yr un modd ag y gall phleidiau sengl, sydd â hyd at 12 o ddisgrifiadau cofrestredig, ei wneud."

Gofynnodd dau ymatebydd am eglurhad pellach ynghylch y ddarpariaeth arfaethedig.

Yn benodol, gofynnodd y Comisiwn Etholiadol am eglurhad pellach ynghylch sut y bydd y cynnig yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer cofrestru enw plaid a amlinellir yn adran 28(4) a pharagraff 2 o Atodlen 4 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, a'r gofynion ar gyfer disgrifiadau a amlinellir yn adran 28A (2) o'r Ddeddf honno. Un enghraifft a roddwyd oedd, oherwydd bod modd i bartïon yng Nghymru gofrestru gydag enw Saesneg ac enw Cymraeg, neu dim ond un enw, y byddai angen i'r Gorchymyn Ymddygiad nodi o dan ba amgylchiadau y gellid defnyddio "Cymru" neu "Welsh" fel ôl-ddodiad neu ragddodiad mewn enw plaid. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle nad yw enw plaid yn cael ei fynegi yn Saesneg neu Gymraeg, neu'n cael ei fynegi'n ddwyieithog.

Argymhellodd y Comisiwn Etholiadol, pan fydd Llywodraeth Cymru yn datblygu ei darpariaethau ei hun ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021 y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y ddarpariaeth debyg a wnaed cyn etholiadau Senedd yr Alban yn 2015. Lle nad yw'r gair "Scottish" yn rhan o enw'r blaid gofrestredig, gall enw'r blaid ar y ffurflen enwebu gynnwys y gair "Scottish" o'i flaen. Os yw enw'r blaid gofrestredig yn dechrau gyda'r gair "the", gellir mewnosod y gair "Scottish" ar ôl y gair "the" ar y ffurflen enwebu. Mae hyn yn wir am ymgeiswyr etholaethau ac ar gyfer rhestrau rhanbarthol pleidiau. Argymhellodd y Comisiwn Etholiadol y dylai Llywodraeth Cymru ystyried nodi rhywbeth tebyg wrth ddefnyddio'r gair "Cymru" fel ôl-ddodiad neu "Welsh" fel rhagddodiad i enw plaid ar y cyd â'r gair "the" yn Saesneg.

Gofynnodd un ymatebydd a fyddai "Cymru" neu "Welsh" yn cael ei gynnwys yn yr uchafswm geiriau a ganiateir. Nododd yr ymatebydd hefyd fod cynnwys enwau ymgeiswyr rhanbarthol ar y papur pleidleisio yn bwysig o ran cynnig mwy o atebolrwydd a dewis i bleidleiswyr. Gofynnodd yr ymateb am eglurhad ynghylch a fyddai hyn yn dal i fynd yn ei flaen a beth fyddai maint ffont enwau.

## **Eithrio costau cysylltiedig ag anabledd a chyfieithu o dreuliau etholiad - i'w gynnwys mewn Gorchymyn ar wahân maes o law**

Croesawodd tri ymatebydd y ffaith y bydd argymhellion y Comisiwn Etholiadol ynghylch eithrio costau cyfieithu rhwng y Gymraeg a'r Saesneg a chostau rhesymol y gellir eu priodoli i anabledd unigolyn o gyfyngiadau gwariant etholiadol pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn cael eu rhoi ar waith cyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

Dywedodd un ymatebydd fod gan y darpariaethau a amlinellir y potensial i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn etholiadau'r Senedd a gofynnodd am roi ystyriaeth bellach i sut mae darparu deunydd dwyieithog yn gyffredinol yn effeithio ar gostau, yn sgil yr angen i argraffu deunyddiau mwy o faint neu symiau mwy, ac a yw trin gwariant ychwanegol o ganlyniad i ddarparu deunydd ychwanegol yn rhywbeth a allai gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ymgyrchu.

## **Materion Ychwanegol a Godwyd**

### Cydgrynhoi Gorchymyn 2007 ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2026

Dywedodd dau ymatebydd y gallai'r Gorchymyn drafft fod yn gliriach a'u bod yn ei chael hi'n anodd ei ddilyn yn enwedig wrth orfod cyfeirio at Orchymyn drafft, Gorchymyn 2007 a Deddf y DU.

Dywedodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol eu bod yn cefnogi'n gryf y penderfyniad i adolygu'r Gorchymyn yn llwyr ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2021 a'r bwriad i gydgrynhoi deddfwriaeth flaenorol yn un Gorchymyn Ymddygiad wedi'i ddiweddarau cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

Dywedodd dau ymatebydd, o ran y Gorchymyn Diwygio a'r Gorchymyn wedi'i Gyd-grynhoi arfaethedig, y bydd angen caniatáu digon o amser paratoi ar ôl pasio'r ddeddfwriaeth. Cyfeiriwyd at adroddiad Gould a'r angen i gadw at yr egwyddor o gyflwyno unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth o leiaf chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio fel isafswm i leihau risgiau i'r broses etholiadol. Roedd un ymatebydd yn argymhell amser paratoi llawer hwy ar gyfer y ddeddfwriaeth gyfunol arfaethedig ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2026.

### Effaith COVID-19

Gwnaeth Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol sylwadau ar y trafodaethau ar wahân sy'n digwydd i ymateb i'r argyfwng COVID-19 cyfredol. Pwrpas y trafodaethau hyn yw sicrhau y gellir cynnal etholiadau 2021 yn effeithiol er budd pawb dan sylw ac yng ngoleuni'r posibilrwydd o'r angen i gynnal yr etholiadau mewn modd sy'n sicrhau bod pobl yn cadw pellter cymdeithasol. Roedd y ddau ymateb yn gefnogol i unrhyw argymhellion i hwyluso cynnal yr etholiadau hyn drwy ddiwygiadau ychwanegol i'r Gorchymyn cyfredol neu drwy ddulliau deddfwriaethol eraill a allai fod ar gael.

Gwnaeth ymatebydd arall sylwadau ar Erthygl 19 o Orchymyn 2007, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol sicrhau bod eu staff ar gael ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd. Nododd yr ymatebydd, oherwydd bod staff yn cael eu hadleoli i gefnogi'r ymateb i COVID-19 a'r ymdrech i adfer ohono, y byddai gallu awdurdodau lleol i neilltuo swyddogion i gynorthwyo swyddogion canlyniadau i gynnal etholiadau Senedd Cymru hyd yn oed yn fwy cyfyngedig pe bai ail neu drydedd don o'r pandemig. Argymhellodd yr ymateb y dylai unrhyw ddeddfwriaeth frys gydnabod a gwneud darpariaeth ar gyfer y digwyddiad hwnnw.



## Argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu di-brint

Yn ei ymateb fe wnaeth y Comisiwn Etholiadol gynnwys adran ar argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu di-brint a nododd ei fod yn siomedig nad yw'r Gorchymyn drafft yn gwneud darpariaeth i estyn y rheolau'n ymwneud ag argraffnodau i ddeunydd ymgyrchu di-brint ac na fydd gofynion o'r fath ar waith ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021.

“Mae ymgyrchu digidol yn agwedd gynyddol bwysig ar ymgyrchu etholiadol yn y DU, ond, fel y byddwch yn ymwybodol, nid yw'r rheolau ynghylch argraffnodau yn gymwysedig at ddeunydd ymgyrchu digidol ar hyn o bryd. Mae hyn yn effeithio ar allu pleidleiswyr i weld pwy sydd y tu ôl i'r deunydd ymgyrchu maent yn ei weld ar-lein, ac mae'n effeithio ar allu'r Comisiwn Etholiadol, yr heddlu a chyrff erlyn i orfodi'r gyfraith. O'r herwydd, dylai estyn y rheolau parthed argraffnodau i gwmpasu deunydd ymgyrchu ar-lein fod yn flaenoriaeth i bob un o lywodraethau'r DU. ”

Cyfeiriodd y Comisiwn Etholiadol at Ddeddf Refferenda (Yr Alban) (RSA) a basiwyd ym mis Ionawr 2020 ac sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer argraffnodau ar ddeunydd refferendwm print a digidol. Bydd angen argraffnod ar ddeunydd digidol sy'n hyrwyddo canlyniad penodol mewn refferendwm yn yr Alban ond mae unigolion wedi'u heithrio o'r gofyniad i gynnwys argraffnodau os ydynt yn mynegi eu barn bersonol ac yn cyhoeddi'r deunydd ar eu rhan eu hunain ar sail anfasnachol. Fodd bynnag, ni all unigolion sydd â rolau uwch yn ymwneud â chydymffurfiaeth a gwneud penderfyniadau mewn sefydliadau ymgyrch refferendwm cofrestredig elwa o'r eithriad hwn. Bydd yn rhaid iddynt gynnwys argraffnodau ar ddeunydd digidol. Mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno rheolau argraffnod digidol ar gyfer etholiadau datganoledig yr Alban, ac mewn pryd ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai 2021.

Gofynnodd ymateb y Comisiwn Etholiadol i Lywodraeth Cymru ystyried cyflwyno darpariaethau tebyg ar gyfer etholiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

## Amrywiol

Nododd un ymatebydd y dylai'r rhai sy'n dod yn aelodau o'r Senedd fod yn preswyllo yng Nghymru.

Dywedodd un ymatebydd arall nad oedd unrhyw sôn am bryderon iechyd meddwl.

## **Cwestiynau 3 a 4 yn ymwneud â'r Gymraeg**

Nododd un ymatebydd y bydd y Gorchymyn drafft yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Dywedodd un ymatebydd, gan fod y Gorchymyn drafft yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth Saesneg yn unig mewn gwirionedd, fod y gwelliannau Cymraeg yn ddibwrpas, ond gellid lliniaru hyn drwy ail-wneud Gorchymyn 2007 yn ddwyieithog.

Roedd ymatebion eraill yn amwys ynghylch yr effaith y byddai Gorchymyn 2020 yn ei chael ar y Gymraeg neu nid oedd ganddynt unrhyw sylw i'w wneud.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad**

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd ac wedi ystyried yr holl ymatebion a ddaeth i law yn ofalus.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi cefnogaeth gyffredinol yr ymatebwyr i'r diwygiadau arfaethedig i Orchymyn 2007 fel yr amlinellir yng Ngorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2020 (Diwygio) 2020.

Amlinellir rhagor o wybodaeth am gwestiynau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a newidiadau i Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2020 (Diwygio) 2020 o ganlyniad i'r ymgynghoriad fel a ganlyn:

### **Estyn etholfraint y Senedd i bobl 16 a 17 mlwydd oed a darpariaethau cysylltiedig**

Mae Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 yn diwygio Gorchymyn 2007 i adlewyrchu'r ffaith bod yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed wedi cael ei hestyn gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Roedd y cynnig i ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed yn rhan bwysig o Fil y Senedd ac Etholiadau (Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 bellach).

Mae Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn gweithredu cynigion a wnaed gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, panel annibynnol a sefydlwyd gan Gomisiwn y Cynulliad yn 2017 i ddarparu cyngor ar yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau i'r Senedd, ymhlith pethau eraill. Cyhoeddodd Comisiwn y Cynulliad ymgynghoriad yn gofyn am farn ar argymhellion y Panel ym mis Chwefror 2017 lle y cytunodd 59% o'r ymatebwyr y dylid gostwng yr oedran pleidleisio isaf i 16. Yn yr un modd canfu ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn 2017 gefnogaeth gref i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dadleuon y byddai galluogi pobl ifanc 16 a 17 oed i bleidleisio yn cryfhau atebolrwydd democrataidd ac yn cynyddu cyfranogiad democrataidd yn y tymor hwy.

### **Gwybodaeth am gyrhaeddwyr ar y gofrestr etholiadol**

Mae etholwyr sy'n 16 oed neu'n hŷn yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol yn yr un modd â'r holl etholwyr eraill. Mae data pobl ifanc o dan 16 oed yn cael eu diogelu yn unol â Deddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ac ni chaniateir eu rhyddhau ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth. Un eithriad o'r fath yw y gall y wybodaeth am y rhai dan 16 oed a fydd yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad (h.y. a fydd yn cyrraedd 16 oed ar y diwrnod pleidleisio neu cyn hynny), at ddibenion yr etholiad, gael ei datgelu yn y gofrestr etholiadol, ar y rhestr pleidleiswyr post, rhestr dirprwyon a rhestr dirprwyon pleidlais drwy'r post, a gyflenwir i:

- ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd at ddibenion etholiadol neu er mwyn cydymffurfio â'r rheolau ar roddion gwleidyddol (lle mae'r ymgeisydd yn ymgeisydd rhanbarthol, rhoddir mynediad i'r gofrestr i asiant etholiadol y blaid).
- y Swyddog Canlyniadau at ddibenion etholiad y Senedd
- y Comisiwn Etholiadol

Nid yw'r wybodaeth a ddarperir ar gael i bleidiau gwleidyddol y mae eu mynediad at gofrestr etholiadol wedi'i nodi yn Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 ac ni ddylent gynnwys dyddiadau geni, nac unrhyw beth arall a fyddai'n datgelu bod pleidleisiwr o dan 16 oed.

### **Cydgrynhoi Gorchymyn 2007 ar gyfer Etholiadau'r Senedd yn 2026**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud y gyfraith yng Nghymru yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio. Rydym yn cydnabod, ynghyd â llawer o rai eraill, bod angen diweddarau a chydgrynhoi cyfraith etholiadol yn gyffredinol. Mae Gorchymyn 2007 eisoes wedi'i ddiwygio yn 2010, 2013 a ddwywaith yn 2016. O ystyried sawl gwaith y mae'r Gorchymyn cyfredol wedi cael ei ddiwygio, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r Gorchymyn ymhellach ar ôl yr etholiadau gyda'r bwriad o gydgrynhoi Gorchymyn 2007 mewn pryd ar

gyfer etholiadau 2026. Bydd y Gorchymyn cyfunol yn ddwyieithog. Bydd cydgrynhoi'r Gorchymynion etholiadau cyn etholiad 2026 yn sicrhau bod deddfwriaeth etholiadau yn fwy hygyrch a thryloyw.

Bydd yr argymhelliad y byddai angen amser paratoi hwy na'r chwe mis a amlinellwyd gan egwyddor Gould yn angenrheidiol ar gyfer y ddeddfwriaeth gyfunol arfaethedig ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026.

### **Effaith COVID-19**

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddir gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a'r Comisiwn Etholiadol, yn ogystal â Swyddogion Canlyniadau a rhanddeiliaid eraill i'r ymdrechion a wneir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y gellir cyflawni etholiadau 2021 yn effeithiol yn wyneb COVID-19. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth y gallai fod angen gwneud diwygiadau pellach i Orchymyn 2007 neu ddeddfwriaeth arall i hwyluso cynnal yr etholiadau hyn yn ddiogel yn y pandemig cyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gofynion cyfredol a roddir ar staff awdurdodau lleol oherwydd y pandemig cyfredol a bydd yn parhau i weithio'n agos â Swyddogion Canlyniadau yn ystod etholiad cyffredinol y Senedd yn 2021.

### **Argraffnodau ar ddeunydd ymgyrchu di-brint**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymgyngoriad ar agweddau technegol ar argraffnodau digidol, sef 'Digital Imprints - Transparency in Digital Campaigning' a ddaeth i ben fis Tachwedd 2020.

Ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Weinidog Gwladol Llywodraeth y DU dros y Cyfansoddiad a Datganoli i gefnogi'r cynigion ac eglurodd y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried pa ddull a fyddai'n addas ar gyfer etholiadau datganoledig maes o law. Mae Llywodraeth Cymru yn gefnogol i argraffnodau mewn egwyddor ond mae angen iddi ystyried ymhellach y dull gweithredu mwyaf priodol ar gyfer y mater cymhleth hwn.

### **Newidiadau Ar Ôl Ymgyngori**

#### **Cyflwyno Pleidiau Gwleidyddol ar Bapurau Enwebu a Phleidleisio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mewnosod y ddarpariaeth arfaethedig i bleidiau gwleidyddol ddefnyddio'r term "Cymru" neu "Welsh" ar bapurau cofrestru a phleidleisio i sicrhau bod modd gwahaniaethu rhwng canghennau datganoledig pleidiau gwleidyddol ledled y DU ac i osgoi dryswch i bledleiswyr. Mae'r opsiwn yn ddewisol a mater i'r ymgeisydd yw p'un a yw'n mabwysiadu'r rhagddodiad / ôl-ddodiad. Lle nad yw enw'r blaid yn Gymraeg nac yn Saesneg, gellir rhagflaenu'r enw gan "Welsh" neu ei ddilyn gan "Cymru"

Mae adran 28(4) o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda yn delio â'r cymwysterau er mwyn i enw cofrestredig gael ei gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. Nid yw'r cynnig hwn yn ceisio diwygio'r darpariaethau cofrestru nac enw'r blaid gofrestrdig fel y'i cofrestrwyd gyda'r Comisiwn Etholiadol ac sy'n ymddangos ar y gofrestr pleidiau gwleidyddol.

#### **Taliadau i Swyddogion Canlyniadau**

Amlinellodd yr ymgyngoriad gynnig i ddileu'r cyfeiriad at daliad am wasanaethau a roddwyd gan Swyddogion Canlyniadau yn erthygl 23 o Orchymyn 2007 ac i hyn gael ei

ddisodli â swm sy'n daladwy i'r holl dimau etholiadol am gynnal etholiadau'r Senedd yn 2021.

Yn dilyn yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn a thrafodaethau pellach rhwng y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (ALACE) a chynrychiolwyr Swyddog Canlyniadau, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig dewis arall yn lle'r system gyfredol o dalu am wasanaethau a roddir gan Swyddogion Canlyniadau yn unig i un sy'n cynnwys y tîm craidd cyfan sy'n ymwneud ag etholiadau.

Pwrpas y dull newydd mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd yw atgyfnerthu annibyniaeth y tîm craidd cyfan sy'n ymwneud ag etholiadau a chydabod bod y tîm yn cynnal etholiad ar gyfer trydydd parti sy'n ymestyn y tu hwnt i rwymedigaethau eu contract gyda'u cyflogwr eu hunain.

Bydd y taliad hwn yn rhan o'r uchafswm adferadwy yn y Gorchymyn Ffioedd a Thaliadau a bydd yn cael ei weinyddu fel rhan o'r holl wariant etholiad yr eir iddo.

Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal i greu cynigion manwl yn ymwneud â symiau cyllido i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn Ffioedd a gynhelir yn ddiweddarach eleni.

Yr egwyddorion y cytunwyd arnynt hyd yma yw y bydd swm cyfartal yn cael ei roi i bob tîm etholiadol gyda thaliadau ychwanegol ar gyfer pob etholaeth a rhanbarth y mae'r tîm yn gyfrifol amdanynt. Caiff y taliad ei ddosbarthu ymhlith y tîm yn ôl disgrisiwn y Swyddogion Canlyniadau a darperir canllawiau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r canllawiau arferol ar gostau etholiad.

Pwrpas y ffi hon yw rhoi cydnabyddiaeth i:

- Swyddogion Canlyniadau
- y rhai sy'n dirprwyo'n uniongyrchol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau
- aelodau parhaol o dîm etholiadol y prif gyngor, a
- y rhai y mae'r Swyddogion Canlyniadau o'r farn eu bod wedi darparu cymorth sylweddol er mwyn cynnal yr etholiad.

### **Diogelu Data**

Mae Llywodraeth Cymru wedi mewnosod y ddarpariaeth a gynlluniwyd i wella diogelwch gwybodaeth am gyrhaeddwyr 14 a 15 oed. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnwys, wrth ystyried cofnodion pleidleiswyr absennol, y ddarpariaethau yn adran 24 o Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn ogystal ag erthyglau 8(9) a 12(13) o Orchymyn 2007.

### **Y Camau Nesaf**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Gorchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2020 (Diwygio) gerbron y Senedd, wedi'i ddiwygio fel yr amlinellwyd uchod. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd rydym yn bwriadu i Orchymyn 2020 gael ei wneud yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

## **Atodiad A**

### **Rhestr o'r Ymatebwyr**

- John Charles
- J Roberts
- Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyngor Bro Morgannwg
- Andrew Stumpf
- Karen Wilkie, Y Blaid Gydweithredol
- Angela Holden, Rheolwr Polisi ar ran Cymdeithas Genedlaethol Gweinyddwyr Etholiadol a Rhys George, Cadeirydd cangen AEA Cymru - ymateb ar y cyd
- Neil McKenzie
- Chloe Hutchinson, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Comisiwn Etholiadol
- Ian Westley, Cyngor Sir Penfro

Cawsom bedwar ymateb hefyd gan ymatebwyr sydd wedi gofyn am aros yn ddiennw.